PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Arholiad Mynediad
Chwefror 2024

CYMRAEG – IAITH FODERN

Amser a ganiateir: 1.5 awr (90 munud)

Atebwch BOB cwestiwn

A: Darllen a Deall

Darllenwch yr erthygl isod ac atebwch y cwestiynau gan ysgrifennu brawddegau llawn. (25%)

Disgyblion Ysgol a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Mae bron hanner disgyblion ysgolion Cymru rhwng saith a 11 oed yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, yn ôl arolwg dan arweiniad staff ym Mhrifysgol Llandrindod.

Yn yr arolwg, mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, cymerodd cyfanswm o 354 o ysgolion cynradd a 32,606 o ddisgyblion yng Nghymru ran yn yr arolwg dienw.

Rhoddodd dysgwyr wybod eu bod yn defnyddio safleoedd neu apiau'r cyfryngau cymdeithasol ychydig o weithiau'r wythnos neu bob dydd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r disgyblion (63%) fod ganddyn nhw ffôn clyfar. Er bod gan leiafrif o ddysgwyr Blwyddyn 3 (43%) eu ffôn clyfar eu hun, mae cynnydd mawr wedi bod yn y berchnogaeth yn ôl oedran, gan fod pump ym mhob chwe disgybl ym Mlwyddyn 6 (83%) yn berchen ar un.

Rhoddodd bron hanner (46%) yr holl ddisgyblion wybod eu bod wedi cael eu bwlio yn yr ysgol yn ystod yr ychydig o fisoedd diwethaf, a rhoddodd 28% o ddisgyblion Blwyddyn 6 wybod eu bod wedi cael eu seiberfwlio yn ystod yr ychydig o fisoedd diwethaf.

Rhoddodd llai na hanner y dysgwyr wybod eu bod yn ymarfer corff bedair gwaith neu ragor yr wythnos.

Cytunodd y rhan fwyaf (90%) o ddisgyblion fod eu hathrawon yn poeni amdanyn nhw.

Rhoddodd bron i ddwy ran o dair (62%) o'r disgyblion wybod bod ganddyn nhw broblemau cysgu weithiau neu bob amser.

1. Pwy a gynhaliodd yr arolwg?

2. Faint o ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg?

3. Faint o ddsygblion Blwyddyn 6 sydd â ffôn clyfar?
4. Beth yn eich barn chi yw'r darganfyddiad pwysicaf, a pham?
5. A ydych yn credu y dylai plant ysgol rhwng saith ac 11 oed ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol? Pam?

B: Cyfieithu

Cyfieithwch y brawddegau canlynol i'r Gymraeg (25%)

1. There's no food in the house. We need to go shopping!
2. We are living in Swansea because it is convenient.
3. She said something important, but he couldn't hear her.
4. The school closed before the end of the month.
5. Are you coming to the meeting about the new theatre tomorrow evening?
6. The children worked all day and walked all the way home.
7. I would like to meet the new captain soon.
8. We have a lovely old house with high stone walls.
9. He will wait until 3 o'clock tomorrow before phoning again.
10. In the picture she is wearing a straw hat and riding a horse.

C: Ysgrifennu

Ysgrifennwch draethawd byr ar **un** o'r testunau hyn. (Awgrymir eich bod yn ysgrifennu tua 500 o eiriau. Cofiwch mai cywirdeb ac iaith dda sydd bwysicaf, ac nid faint yr ydych yn ei ysgrifennu.) (50%)

Fy ffrind gorau
Fy hoff bwnc yn yr ysgol
Gwyliau
Digwyddiad yn ystod fy mhlentyndod
Fy mhryder mwyaf